Datganiad Newyddion

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

25 Mawrth 2010

Asesiadau gan athrawon mewn ysgolion cynradd ddim yn ddigon cyson

Nid yw asesiadau gan athrawon o waith disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 (CA2) yn ddigon cyson na chywir rhwng ysgolion gwahanol, yn ôl Estyn, arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru.

Mewn adroddiad a gyhoeddwyd heddiw, *'Arfarniad o'r trefniadau i sicrhau cysondeb asesu gan athrawon yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3'*, mae arolygwyr wedi amlygu pryderon ynghylch cadernid a dibynadwyedd asesiadau gan athrawon, yn enwedig yn CA2 lle nad oes system genedlaethol ar waith i wirio cywirdeb a chysondeb asesu gan athrawon fel sydd ar gael ar hyn o bryd yn CA3. Mae'r systemau mwy trylwyr sydd ar waith yn CA3 yn arwain at gywirdeb a dibynadwyedd gwell mewn asesiadau athrawon nag yn CA2.

Mae asesiadau gan athrawon ar ddiwedd CA2 (disgyblion 7-11 oed) ac CA3 (disgyblion 11-14 oed) i bennu safon cyrhaeddiad disgyblion wedi bod ar waith ers dileu Profion Asesu Statudol (TASau) yn 2005. Fel rhan o'u hadroddiad, bu arolygwyr yn arfarnu asesiadau gan athrawon drwy fwrw golwg ar ystod o dystiolaeth o drawstoriad o 60 ysgol gynradd ac ysgol uwchradd o bob cwr o Gymru, yn ogystal â dadansoddi adroddiadau arolygu dros gyfnod o ddwy flynedd ac adborth gan weithwyr proffesiynol, fel y dirprwy brif wiriwr allanol a staff yn yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

Meddai Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, *"Mae arolygiadau ysgol yn dangos yn gyson bod gan tua chwarter o'r*

ysgolion sy'n cael eu harolygu bob blwyddyn ddiffygion mewn rhai agweddau ar asesu. Dyma her sylweddol i ysgolion, yn enwedig yn y sector cynradd lle mae systemau llai cadarn ar waith nag mewn ysgolion uwchradd ar gyfer asesu cywirdeb yr asesiadau gan athrawon."

Mae canfyddiadau o'r adroddiad yn dangos bod athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd at ei gilydd yn dod yn fwy hyderus ynghylch pennu pa lefel y mae disgybl wedi'i chyflawni ym mhynciau craidd Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Eto, mae amgyffredion gwahanol ynghylch y lefelau hyn yn bodoli o hyd.

Mae Estyn yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n agosach gydag awdurdodau lleol er mwyn helpu ysgolion i ymgorffori prosesau i sicrhau mwy o gywirdeb a chysondeb mewn asesiadau gan athrawon. Yn benodol, mae angen i ysgolion wneud defnydd llawn o'r amser sydd ar gael iddynt ar gyfer gweithgareddau asesu, i sicrhau bod athrawon ym mhob ysgol yn cyfarfod i safoni gwaith disgyblion a bod ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd cysylltiedig yn cymhwyso dealltwriaeth gyffredin o safonau. Hefyd, mae Estyn yn annog awdurdodau lleol, fel rhan o'u rôl yn rhoi'r fframwaith effeithiolrwydd ysgol ar waith, i fynd rhagddynt i weithio gydag ysgolion i fynd i'r afael â'r materion hyn yn effeithiol.

Mae Estyn o'r farn y bydd y mesurau hyn yn sicrhau bod gan athrawon safon gyffredin ar draws pob ysgol a'u bod yn defnyddio'r canlyniadau perthnasol o gyfarfodydd cymedroli a safoni i wella cysondeb asesu gan athrawon, yn enwedig yn CA2.

-DIWEDD-

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gina Carrington
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gov.uk
02920 446454

Nodiadau i Olygyddion:

Ynglŷn â'r adroddiad

- Comisiynwyd adroddiad Estyn 'Arfarniad o'r trefniadau i sicrhau cysondeb asesu gan athrawon yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ar gael yn llawn yn http://www.estyn.gov.uk/ThematicReports.asp

- Mae'r adroddiad yn ymelwa ar dystiolaeth o adroddiadau arolygu ysgolion cynradd ac uwchradd rhwng Medi 2006 a Gorffennaf 2008, trafodaethau â phenaethiaid ac athrawon, holiadur yn cynrychioli ysgolion o 20 o'r awdurdodau lleol yng Nghymru ac ystod o dystiolaeth CA3.

Ynglŷn ag Estyn

Estyn yw Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Cymru. Ein nod yw cyflawni rhagoriaeth i bawb mewn dysgu yng Nghymru. Gwnawn hyn drwy gynnig gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol, o ansawdd uchel.

Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod fel llais awdurdodol ar ddysgu yng Nghymru drwy arbenigedd ein staff.

Rydym yn annibynnol ar, ond cawn ein hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan www.estyn.gov.uk